# Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau

**27 Medi 2023**

**Yn bresennol:** Cynghorydd D Clements, Mrs S Hoss, Cynghorydd M James, Dr R Plummer, Cynghorydd M Wiggins a'r Cynghorydd R Jordan.

**Hefyd yn bresennol:** Mr T Jones (Prif Weithredwr) a Mrs C Llewellyn (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd).

[Ymunodd y Cynghorydd D Clements â’r cyfarfod adeg ystyried y Log Gweithredu]

(Cyfarfod Rhithiol: 2.00pm – 3:15pm)

**1. Ethol Cadeirydd**

Dywedwyd mai dim ond un enwebiad oedd wedi dod i law ar gyfer y swydd Cadeirydd, sef Mrs S Hoss.

Ar gynnig Dr R Plummer, a eiliwyd gan y Cynghorydd R Jordan, **PENDERFYNWYD** ethol Mrs S Hoss yn Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.

**2. Ethol Dirprwy Gadeirydd**

Ar gynnig Dr R Plummer, a eiliwyd gan Mrs S Hoss, **PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd M Wiggins yn Ddirprwy Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.

**3. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth Mrs J James, y Cynghorydd S Skyrme-Blackhall a'r Cynghorydd A Wilcox.

**4. Datgan Buddiannau**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**5. Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mehefin 2023 i’w cadarnhau a’u dilysu.

Ar gynnig y Cynghorydd M James, a eiliwyd gan Dr R Plummer, **PENDERFYNWYD** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mehefin 2023.

**6. Log Gweithredu a Materion yn Codi**

Nodwyd y log gweithredu.

**Nodwyd.**

**7. Diweddariad ar Gefnogi a Datblygu Aelodau**

Croesawodd y Cadeirydd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a gyflwynodd ddiweddariad ar faterion oedd yn ymwneud â Chefnogi a Datblygu Aelodau gan gynnwys yr Adolygiadau o Ddatblygiad Personol, gwybodaeth am y Siarter ar gyfer Cynorthwyo a Datblygu Aelodau, y Cynllun Hyfforddi, Presenoldeb Aelodau a Seminar Aelodau Cymru 2024.

**A) Adolygiadau o Ddatblygiad Personol**

Dywedwyd bod yr Aelodau yn y cyfarfod blaenorol wedi tynnu sylw at y ffaith bod yr Adolygiadau o Ddatblygiad Personol yr Awdurdod wedi cyd-daro ag adolygiadau Cyngor Sir Penfro (CSP) a bod yr hyfforddiant gorfodol a roddwyd gan y ddau Awdurdod wedi arwain at ddyblygu gwaith.

Cadarnhaodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd ei bod yn aros am gadarnhad ar amseriad Adolygiadau o Ddatblygiad Personol CSP. Fodd bynnag roedd wedi derbyn eu cynllun hyfforddiant i sicrhau na fyddai Cynghorwyr yn cwblhau'r un hyfforddiant ddwywaith.

Yn hytrach nag aros am ymateb gan CSP, cytunwyd y byddai'r Awdurdod yn bwrw ymlaen â'u hadolygiadau hwy er mwyn osgoi oedi pellach. Er mwyn symleiddio'r adolygiadau a chynyddu’r nifer sy’n cymryd rhan, awgrymodd y Prif Weithredwr y dylid newid y broses i ddull mwy hirdymor gyda’r flaenoriaeth ar glustnodi anghenion hyfforddiant. Cytunwyd fel rhan o'r broses newydd ar gyfer yr Adolygiadau o Ddatblygiad Personol, y byddai'n ofynnol i'r Aelodau adolygu eu ffurflenni presennol yn flynyddol a chlustnodi unrhyw anghenion hyfforddiant ychwanegol ar gyfer y flwyddyn i ddod. Dylid dosbarthu ffurflenni cyn gynted â phosibl i'w dychwelyd cyn y Nadolig.

*[Cyflwynodd Dr R Plummer ei hymddiheuriad a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar eitem 7b; O’r Siarter i Hunanasesu, Esblygiad Siarter Cymru ar gyfer Cynorthwyo a Datblygu Aelodau]*

**B) O’r Siarter i Hunanasesu, Esblygiad Siarter Cymru ar gyfer Cynorthwyo a Datblygu Aelodau**

Roedd yr adroddiad yn amlinellu manylion y Siarter ar gyfer Cynorthwyo a Datblygu Aelodau a ddatblygwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) dros yr 20 mlynedd diwethaf. Oherwydd y newid sylweddol sydd wedi digwydd i Lywodraeth Leol yn y cyfnod hwnnw, dywedwyd bod angen fframwaith gwahanol i amlygu’r newidiadau hyn. Roedd CLlLC yn cynnig y dylid disodli’r Siarter bresennol gan fframwaith o hunanasesu gwirfoddol oedd yn canolbwyntio ar y cymorth a roddir i’r Cynghorwyr i gyflawni’r hyn sydd ei angen ar eu cymunedau. Roedd yr adroddiad yn amlygu bod dogfen

ymgynghori wedi'i chyhoeddi, yn gwahodd Awdurdodau i wneud sylwadau ar addasrwydd y fframwaith fel sylfaen genedlaethol gyffredin y gallai Awdurdodau ei defnyddio i ddatblygu eu dulliau eu hunain o hunanasesu oedd yn talu sylw i'w hanghenion a'u blaenoriaethau lleol.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r derminoleg fyddai ei hangen er mwyn i fframwaith yr Awdurdod gyfleu pwyslais y Parc Cenedlaethol o ran elfennau megis y modd y caiff yr Aelodau eu hethol. Awgrymodd y Cadeirydd bod y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yn cysylltu â Pharciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Eryri i drafod y fframwaith ac a ellid defnyddio dull ar y cyd er mwyn cael cysondeb a rhannu arfer gorau. Gwahoddwyd yr Aelodau i anfon unrhyw sylwadau pellach at y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ar y fframwaith arfaethedig erbyn 27 Hydref 2023.

**C) Cynllun Hyfforddi**

Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r rhaglen hyfforddi yn ystod gweddill y flwyddyn. Cafwyd trafodaeth ynghylch presenoldeb Aelodau mewn sesiynau hyfforddiant a'r camau y gellid eu cymryd i wella hyn. Cadarnhaodd y Swyddog y byddai awgrymiadau'r Aelodau ar gynnal Gweithdai ar ddiwrnodau ar wahân yn cael eu cynnwys yn y calendr nesaf o gyfarfodydd ac y byddai manylion y gweithdai sydd i ddod yn cael eu dosbarthu i roi gwybodaeth bellach.

**D) Presenoldeb Aelodau**

Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion am bresenoldeb yr Aelodau hyd yn hyn, a nodwyd bod cynnal cyfarfodydd hybrid wedi cael effaith gadarnhaol ar y ffigurau hyn.

**E) Seminar Aelodau Cymru 2024**

Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd mai tro Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yw trefnu Seminar nesaf yr Aelodau yn 2024, a gofynnwyd am farn yr Aelodau ar hyn.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â themâu a lleoliadau posibl y Seminar, a chytunwyd y byddai awgrymiadau pellach yn cael eu cyflwyno i'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd o fewn y pythefnos nesaf. Awgrymwyd y gellid trafod pob awgrym yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor, a rhannu'r opsiynau ar y rhestr fer gyda phob Aelod o'r Awdurdod ar ffurf arolwg barn i ddod i benderfyniad terfynol. Roedd yr Aelodau yn gytûn y dylid gwneud penderfyniad cyn diwedd y flwyddyn.

**Nodwyd.**

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau a gynhaliwyd ar 27 Medi 2023 heb eu diwygio. |